**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1355
Ein cyf/Our ref FM -/00393/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Government.Committee.Business@llyw.cymru

22 Awst 2023

Annwyl Jack,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-06-1355, sef "Dylid cynnal refferendwm yn gofyn am gymeradwyaeth y bobl i gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o 36".

Roedd ymrwymiad i ddiwygio'r Senedd wedi ei gynnwys ym maniffestos pleidiau gwleidyddol Llafur Cymru, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn etholiad y Senedd yn 2021.

Mae Deddf Cymru 2017 wedi datganoli pwerau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, gan gynnwys y system etholiadol, ymddygiad, etholfraint a chofrestru. Mae hyn yn cynnwys pŵer i'r Senedd ddeddfu i newid ei maint, a hynny heb gynnal refferendwm cyn defnyddio'r fath bŵer.[1] Un yr un modd, nid yw wedi bod yn ofynnol cynnal refferendwm ar gyfer lleihau nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru o 40 i 32, yn sgil y newidiadau i ffiniau etholaethau a gyflwynwyd yn San Steffan.

Mae achos cryf a chlir wedi cael ei roi gerbron, dro ar ôl tro, dros ddiwygio Senedd Cymru. Mae hyn wedi bod yn destun cyfres o banelau arbenigol ac adroddiadau comisiwn. Yn 2004, daeth Comisiwn Richards (Adroddiad y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Saesneg yn Unig) i'r casgliad nad oedd cynnal y status quo yn opsiwn, ac roedd yn argymell newid mewn aelodaeth a newid y system etholiadol.

Yn 2017, gwnaeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (Adroddiad McAllister) argymhellion am faint y Senedd a sut y dylid ethol Aelodau. Ystyriwyd yr argymhellion yn eu tro gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Medi 2020, a daeth i'r casgliad bod tystiolaeth gref a chlir yn dangos bod

[1] Ar y llaw arall, mae a.A1(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a oedd hefyd wedi ei mewnosod gan Ddeddf Cymru 2017, yn cynnwys darpariaeth benodol na ellir diddymu'r Senedd (a Llywodraeth Cymru) heb refferendwm.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


y Senedd yn rhy fach. Amlinellodd y Pwyllgor bod mwyafrif y dystiolaeth a gafwyd yn "mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol.".

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru ar 30 May 2022. O blith y 31 o argymhellion, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Senedd gael 96 o Aelodau.

Senedd Cymru yw'r ddeddfwrfa leiaf o bob un o ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig, ac mae wedi aros yr un maint ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999.  Ar y pryd, nid oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau deddfu sylfaenol ac nid oedd wedi gwahanu'n ffurfiol o Lywodraeth Cymru. Mae rolau a chyfrifoldebau'r senedd wedi tyfu'n helaeth. Bellach, mae'r Senedd yn gwneud deddfau a chyfraith, yn codi trethi ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn rhai meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl. Mae'n gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar fywyd pawb yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod Senedd Cymru yn sefydliad priodol ei maint, er mwyn iddi allu cynnal swyddogaethau craffu yn effeithiol a dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

Mae buddsoddi yn ein democratiaeth yn costio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcangyfrifon o gostau manwl ar y cyd â Bil (Aelodau ac Etholiadau). Bydd Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd yn cael cyfle i ystyried manylion y ddeddfwriaeth a'r costau cysylltiedig pan gaiff y Bil ei gyflwyno yn fuan yn nhymor yr hydref.

Diolch am y cyfle i roi fy sylwadau ar y ddeiseb.



**MARK DRAKEFORD**